# Pecyn Dogfen Cyhoeddus

Cyngor sir ddinbych denbighshire County Council

| | | | |
|---|---|---|---|
| At: | Gadeirydd ac Aelodau'r Pwyllgor Safonau | Dyddiad: | 27 Mawrth 2018 |
| | | Rhif Union: | 01824 712624 |
| | | ebost: | democrataidd@sirddinbych.gov.uk |

Annwyl Aelod o'r Pwyllgor,

Fe'ch gwahoddir i fynychu cyfarfod y **PWYLLGOR SAFONAU, DYDD MAWRTH, 3 EBRILL 2018** am **2.00 pm** yn **YSTAFELL BWLLGOR 1A, NEUADD Y SIR, RHUTHUN, LL15 1YN**.

Yn gywir iawn

G Williams
Pennaeth Gwasanaethau Cyfreithiol, AD a Democrataidd

**AGENDA**

**RHAN 1 - GWAHODDIR Y WASG A'R CYHOEDD I DDOD I'R RHAN HON O'R CYFARFOD**

**1 YMDDIHEURIADAU**

**2 PENODI IS-GADEIRYDD**

Penodi Is-Gadeirydd y Pwyllgor Safonau.

**3 DATGANIADAU O FUDDIANT** (Tudalennau 5 - 6)

Dylai'r Aelodau ddatgan unrhyw gysylltiad personol neu gysylltiad sy'n rhagfarnu ag unrhyw fater a nodwyd yn un i'w ystyried yn y cyfarfod hwn.

**4 MATERION BRYS FEL Y'U CYTUNWYD GAN Y CADEIRYDD**

Rhybudd o eitemau y dylid, ym marn y Cadeirydd, eu hystyried yn y cyfarfod fel materion brys yn unol ag Adran 100B (4) Deddf Llywodraeth Leol, 1972.

**5 COFNODION Y CYFARFOD DIWETHAF** (Tudalennau 7 - 12)

Derbyn cofnodion cyfarfod y Pwyllgor Safonau a gynhaliwyd ar 22 Medi 2017 (copi wedi'i amgáu).

**6 LLYFR ACHOSION COD YMDDYGIAD - OMBWDSMON GWASANAETHAU CYHOEDDUS CYMRU** (Tudalennau 13 - 24)

Ystyried adroddiad gan y Swyddog Monitro (copi wedi'i amgáu) yn hysbysu'r aelodau o gyhoeddiadau diweddaraf Llyfr Achosion Cod Ymddygiad yr Ombwdsmon.

**7 CAIS AM OLLYNGIAD GAN GYNGOR CYMUNED LLANBEDR DYFFRYN CLWYD** (Tudalennau 25 - 32)

Ystyried adroddiad gan y Swyddog Monitro (copi wedi'i amgáu) ynglŷn â chais am ollyngiad a wnaed gan aelodau Cyngor Cymuned Llanbedr Dyffryn Clwyd.

**8 TÂL A CHYFRIFOLDEBAU AELODAU LLEYG** (Tudalennau 33 - 38)

Ystyried adroddiad gan Reolwr y Gwasanaethau Democrataidd (copi wedi'i amgáu) ar dâl a chyfrifoldebau aelodau lleyg.

**9 PRESENOLDEB MEWN CYFARFODYDD**

Nodi presenoldeb aelodau'r Pwyllgor Safonau yng nghyfarfodydd Cynghorau Sir, Tref a Chymuned a derbyn eu hadroddiadau.

**10 RHAGLEN GWAITH I'R DYFODOL Y PWYLLGOR SAFONAU** (Tudalennau 39 - 40)

Ystyried Rhaglen Gwaith i'r Dyfodol y Pwyllgor Safonau (copi wedi'i amgáu).

**11 DYDDIAD Y CYFARFOD NESAF**

Trefnwyd cyfarfod nesaf y Pwyllgor Safonau ar gyfer 26 Mehefin 2018.

**RHAN 2: EITEMAU CYFRINACHOL**

Argymhellir, yn unol ag Adran 100A (4) Deddf Llywodraeth Leol 1972, y dylid gwahardd y Wasg a'r Cyhoedd o'r cyfarfod yn ystod trafod y mater(ion) canlynol oherwydd y tebygolrwydd y caiff gwybodaeth eithriedig fel y diffinnir ym Mharagraff 12 & 13 Rhan 4 o Atodlen 12A y Ddeddf, ei datgelu.

**12 COD YMDDYGIAD - RHAN 3 DEDDF LLYWODRAETH LEOL 2000** (Tudalennau 41 - 44)

Ystyried adroddiad cyfrinachol gan y Swyddog Monitro (copi wedi'i amgáu) sy'n rhoi trosolwg o gwynion yn erbyn aelodau a gyflwynwyd gydag Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru.

**AELODAETH**

Aelodau Annibynnol:
Ian Trigger (Cadeirydd), Mrs Paula White, Julia Hughes a/ac Peter Lamb

Aelod Cyngor Tref/Cymuned:
Y Cynghorydd Gordon Hughes

Cynghorwyr Sir:
Y Cynghorydd Paul Penlington
Y Cynghorydd Andrew Thomas

**COPIAU I'R:**

Holl Gynghorwyr er gwybodaeth
Y Wasg a'r Llyfrgelloedd
Cynghorau Tref a Chymuned

Mae tudalen hwn yn fwriadol wag

**DEDDF LLYWODRAETH LEOL 2000**

**Cod Ymddygiad Aelodau**

## DATGELU A CHOFRESTRU BUDDIANNAU

| | |
|---|---|
| Rwyf i,<br>(enw) | |
| *Aelod /Aelod cyfetholedig o<br>*(*dileuer un)* | **Cyngor Sir Ddinbych** |

**YN CADARNHAU** fy mod wedi datgan buddiant ***personol / personol a sy'n rhagfarnu** nas datgelwyd eisoes yn ôl darpariaeth Rhan III cod ymddygiad y Cyngor Sir i Aelodau am y canlynol:-
*(*dileuer un)*

| | |
|---|---|
| Dyddiad Datgelu: | |
| Pwyllgor (nodwch): | |
| Agenda eitem | |
| Pwnc: | |
| Natur y Buddiant:<br>*(Gweler y nodyn isod)** | |
| Llofnod | |
| Dyddiad | |

Noder: Rhowch ddigon o fanylion os gwelwch yn dda, e.e. 'Fi yw perchennog y tir sy'n gyfagos i'r cais ar gyfer caniatâd cynllunio a wnaed gan Mr Jones', neu 'Mae fy ngŵr / ngwraig yn un o weithwyr y cwmni sydd wedi gwneud cais am gymorth ariannol'.

Mae tudalen hwn yn fwriadol wag

# PWYLLGOR SAFONAU

Minutes of a meeting of the Pwyllgor Safonau held in Ystafell Bwyllgora 1a, Neuadd y Sir, Rhuthun on Dydd Gwener, 22 Medi 2017 at 10.00 am.

## YN BRESENNOL

Ian Trigger (Cadeirydd), Julia Hughes a/ac Anne Mellor a'r Cynghorwyr Andrew Thomas

## HEFYD YN BRESENNOL

Swyddog Monitro (GW) a Dirprwy Swyddog Monitro (LJ)

---

## 1 YMDDIHEURIADAU

Derbyniwyd ymddiheuriadau gan yr Aelod Annibynnol Paula White.

**Diolch i'r Aelod Annibynnol Paula White**

Dywedodd y Cadeirydd bod cyfnod swydd yr Aelod Annibynnol a'r Is-Gadeirydd, Paula White, wedi dod i ben. Mae Ms White wedi bod yn rhan o'r pwyllgor ers oddeutu deng mlynedd (dau dymor), sef y cyfnod mwyaf a ganiateir. Ar ran y pwyllgor dymunodd y Cadeirydd yn dda iddi a diolchodd iddi am ei phresenoldeb a'i gwaith dros y blynyddoedd.

## 2 DATGAN CYSYLLTIAD

Dim.

## 3 MATERION BRYS FEL Y'U CYTUNWYD GAN Y CADEIRYDD

Dim.

## 4 COFNODION Y CYFARFOD DIWETHAF

Cyflwynwyd cofnodion cyfarfod y Pwyllgor Safonau a gynhaliwyd ar 30 Mehefin 2017.

**Cywirdeb** – amlygwyd dau wall teipograffyddol yn y Saesneg:

Tudalen 6 – dylai'r paragraff olaf ond un ddweud "agreed".

Tudalen 7 - 4ydd paragraff, mae'r gair 'imminent' wedi ei gamsillafu.

**Materion yn codi -**

Tudalen 7 – Eitem 5 – Cais Gollyngiad Bodelwyddan. Mae'r Swyddog Monitro wedi ysgrifennu at y clerc yn nodi penderfyniad y Pwyllgor i gymeradwyo'r cais am ollyngiad.

Tudalen 9 – Eitem 8 – Presenoldeb mewn cyfarfodydd. Dywedodd y Cadeirydd y byddai'n ddefnyddiol cael rhestr o bob Cyngor Tref, Cymuned a Dinas a dyddiad eu cyfarfodydd misol ar y fewnrwyd.

Dywedodd dy Swyddog Monitro bod yna restr o'r cynghorau a manylion cyswllt y clercod ar wefan Sir Ddinbych. Byddai'n edrych i mewn i'r posibilrwydd o ychwanegu llinell ynglŷn â dyddiad y cyfarfodydd wrth ymyl manylion y clerc.

Dywedodd yr Aelod Annibynnol J. Hughes bod rhai gwefannau'r cynghorau unigol yn cynnwys manylion cyswllt, dyddiadau a lleoliadau anghywir.

Cytunodd y Swyddog Monitro i ysgrifennu at bob clerc er mwyn:

- Cadarnhau manylion cyswllt y Clerc
- Gofyn am restr o'u cyfarfodydd yn ystod y 12 mis nesaf
- Rhoi gwybod iddynt y bydd Aelod o'r Pwyllgor Safonau o bosibl yn ymweld â nhw. **GW i weithredu**

Tudalen 10 – Eitem 9 – Adroddiad Blynyddol y Cadeirydd. Dywedodd y Cadeirydd y bydd ei adroddiad yn cael ei gyflwyno i'r Cyngor Sir fis Hydref.

***PENDERFYNWYD*** *y dylid derbyn a chymeradwyo cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 30 Mehefin 2017 fel cofnod cywir yn amodol ar y newidiadau uchod.*

**5 LLYFR ACHOSION COD YMDDYGIAD - OMBWDSMON GWASANAETHAU CYHOEDDUS CYMRU**

Atgoffodd y Swyddog Monitro bod yr Ombwdsmon yn cynnal adolygiad chwarterol sy'n crynhoi'r holl achosion yr ymchwiliwyd iddynt yn ystod y cyfnod hwnnw. Dywedodd y Swyddog Monitro bod y llyfr achosion yn ddefnyddiol oherwydd ei fod yn dangos bod yr Ombwdsmon yn debygol o gynnal ymchwiliadau a gosod y sancsiynau perthnasol.

Yn ystod chwarter Ebrill 2017 – Mehefin 2017 cafwyd 12 achos; gafodd 2 eu cyfeirio at Bwyllgor Safonau ac 1 at Banel Dyfarnu Cymru.

O ran y 9 achos arall nid oedd angen camau gweithredu pellach oherwydd nad oedd tystiolaeth o dorri gofynion neu oherwydd nad oedd ymchwilio i'r mater ymhellach o fudd i'r cyhoedd.

Cafodd y 2 achos a gyfeiriwyd at Bwyllgor Safonau eu cyfeirio at Bwyllgor Safonau Powys ac roeddynt yn ymwneud â 2 aelod a oedd wedi eu herlyn gan y Cyngor am

dorri Rheoliadau Adnabod Gwartheg (Cymru) 2007. Ystyriwyd bod y ddau gynghorydd wedi dwyn anfri ar eu hawdurdod a chawsant eu gwahardd am bythefnos a phedair wythnos.

Roedd yr achos a ddygwyd i sylw Panel Dyfarnu Cymru yn ymwneud ag aelod o Gyngor Dinas Caerdydd. Roedd yr honiad yn ymwneud â sylw a wnaethpwyd y tu allan i wrandawiad llys ynghylch etholwr y cynghorydd. Daeth y Panel i'r casgliad nad oedd y sylw yn dwyn anfri ar yr awdurdod gan nad oedd wedi ei wneud yn gyhoeddus. Fodd bynnag, roedd y cynghorydd wedi dangos diffyg parch ac ystyriaeth ac wedi ymddwyn yn drahaus. Cafodd y cynghorydd ei wahardd am fis. Roedd yr achos wedi ei gyfeirio at Banel Dyfarnu Cymru yn hytrach na Phwyllgor Safonau oherwydd ymddygiad blaenorol tebyg.

Trafododd y pwyllgor a yw'r cosbau a ddyfarnwyd yn debygol o atal cynghorwyr rhag torri gofynion. Cydnabuwyd bod Pwyllgorau Safonau yn gwrando ar amgylchiadau lliniarol a bod embaras weithiau yn sancsiwn ynddo'i hun.

Myfyriodd y Pwyllgor ynghylch cwynion yn codi yn sgil camddealltwriaeth neu angof. Roeddynt yn cydnabod bod cynghorwyr yn gweithio'n galed ac yn aml yn eistedd ar sawl panel/bwrdd/ysgol/cyngor ac ati, a pho fwyaf yw'r rhwymedigaethau hyn y mwyaf tebygol ydynt o dorri rheolau.

Dywedodd y Swyddog Monitro bod cwrs hyfforddiant yn cael ei drefnu ar ganllawiau CLlLC ar gyfer aelodau sy'n eistedd ar fyrddau cyrff allanol, a fydd yn egluro eu cyfrifoldebau a chysylltiadau niweidiol posibl.

Awgrymwyd y dylid cylchredeg nodiadau gwybodaeth gyda phwyntiau allweddol achosion diweddar yr Ombwdsmon i bob cynghorydd ar ôl yr hyfforddiant. **GW i weithredu.**

***PENDERFYNWYD*** *bod y Pwyllgor Safonau yn nodi'r wybodaeth sydd yn Llyfr Achos y Cod Ymddygiad.*

## 6 HYFFORDDIANT AR Y COD YMDDYGIAD

Atgoffodd y Swyddog Monitro bod Cod Ymddygiad Cynghorwyr Sir yn ei gwneud yn ofynnol i aelodau etholedig fynychu o leiaf un sesiwn hyfforddiant ar y cod ym mhob tymor Cyngor.

Yn ystod y sesiwn hyfforddiant ar gyfer Cynghorwyr Sir ar 11 Mai 2017 roedd 31 yn bresennol, llawer ohonynt wedi dal swydd cynghorydd o'r blaen. Roedd un Cynghorydd Sir, nad oedd yn gallu mynychu'r cyfarfod hwn, wedi mynychu sesiwn amgen a gynhaliwyd ar gyfer Cynghorwyr Tref, Cymuned a Dinas. Bydd sesiwn hyfforddiant arall ar 12 Hydref 2017 ar gyfer y 15 Cynghorydd Sir sy'n weddill.

Mae nifer o sesiynau wedi eu cynnal ym mis Mehefin ar gyfer cynghorwyr a chlercod Cynghorau Tref a Chymuned. Bu i 78 Cynghorydd Tref a Chymuned fynychu'r sesiynau hyn, allan o'r 377 sedd a geir yn Sir Ddinbych. Dywedwyd bod y

tabl yn Atodiad 1 yn rhestru Llangollen ddwywaith, gofynnodd y Pwyllgor am eglurhad gan y Swyddog Monitro. **GW i ymchwilio i hyn.**

Mae Cyngor Tref Prestatyn a Llanarmon/Llandegla wedi gofyn am hyfforddiant unigol, a fydd yn cael ei ddarparu yn ddiweddarach. Roedd Cyngor Tref Bodelwyddan wedi gofyn a oedd modd iddynt fynychu'r sesiwn hyfforddiant nesaf i Gynghorwyr Sir, ond ni fyddai hynny'n briodol. Bydd y Swyddog Monitro yn darparu dyddiad amgen iddynt. Awgrymodd y Cadeirydd y dylid gwahodd cynghorau cyfagos os oedd hyfforddiant yn cael ei gynnal gerllaw.

Trafododd y Pwyllgor y mater ynghylch un clerc yn gweinyddu sawl cyngor gwahanol, yn enwedig y risg sy'n gysylltiedig â diffyg cynllun wrth gefn petai'r clerc yn gadael heb drosglwyddo'r awenau i glerc newydd.

Dywedodd yr Aelod Annibynnol, J. Hughes, ei bod wedi mynychu hyfforddiant Cod Ymddygiad HWB Dinbych ym mis Gorffennaf. Roedd yn ddiddorol tu hwnt a dywedodd bod y cyfranogwyr yn frwdfrydig iawn, gan ymgysylltu'n llwyr a chymryd rhan yn y gweithgareddau. Roedd yn amlwg bod rhai senarios a drafodwyd yn berthnasol iddynt ac roedd yn gyfle gwych iddynt ofyn cwestiynau.

Dywedodd y Cadeirydd ei fod yntau hefyd wedi mynychu sesiwn hyfforddiant ar 11 Gorffennaf. Roedd yn canmol y ffordd y bu i'r Swyddog Monitro a'r Dirprwy Swyddog Monitro gynnal y sesiwn. Cafodd cysylltiadau personol a niweidiol eu hegluro'n glir, gyda nifer o enghreifftiau perthnasol wedi eu darparu. Roedd yr hyfforddeion yn cael ei hannog i drafod y materion a godwyd a chymryd rhan. Y neges a ledaenwyd oedd bod ymddygiad da yn golygu llywodraeth leol fwy effeithiol.

***PENDERFYNWYD*** *bod y Pwyllgor Safonau yn:*

1. *derbyn ac yn nodi'r hyfforddiant Cod Ymddygiad a ddarparwyd hyd yma; ac yn*
2. *adolygu ac yn ystyried gofynion hyfforddiant pellach ar ôl i sesiynau hyfforddiant yr hydref gael eu cynnal.*

## 7 PRESENOLDEB MEWN CYFARFODYDD

Dywedodd yr Aelod Annibynnol, A. Mellor, y bydd yn ymweld â Chyngor Cymuned Trefnant fis Hydref.

Mynychodd yr Aelod Annibynnol, J. Hughes (JH), gyfarfod o Gyngor Cymuned Clocaenog ar 18 Gorffennaf 2017. Dywedodd JH bod hwn yn gyngor wedi ei weinyddu gan glerc sy'n rhedeg sawl cyngor cymuned.
Dywedodd JH bod y clerc wedi arwain y cyfarfod ac er bod yr aelodau yn cymryd rhan lawn y clerc oedd yn tueddu i ymgymryd â'r tasgau. Cytunodd y Pwyllgor mai Cadeirydd y Cyngor ddylai arwain cyfarfodydd ac mai rôl y clerc yw cynghori. Holwyd a fyddai hyfforddiant o fudd i gadeiryddion.

Gofynnwyd i JH am ei barn ar wefan y Cyngor a pha wybodaeth bellach fyddai'n ddefnyddiol ei chael arni. Dywedodd JH bod y cyfarfod yn ddiddorol iawn a'i bod wedi cael croeso cynnes.

Mae JH hefyd wedi derbyn gwahoddiad i fynychu cyfarfod Panel Annibynnol Cymru ar Gydnabyddiaeth Ariannol. Roedd JH dan yr argraff bod y cyfarfod hwn yn cynnwys nifer o bobl, ond cyfarfod un-i-un gydag aelod o'r panel ydyw mewn gwirionedd.

Ymddiheurodd y Swyddog Monitro nad oedd JH wedi derbyn nodyn briffio ac eglurodd bwrpas Panel Annibynnol Cymru ar Gydnabyddiaeth Ariannol. Mae'r Panel yn pennu:

- Cyflog sylfaenol pob cynghorydd sir
- Cyflogau uwch aelodau cabinet
- Taliadau cadeiryddion pwyllgorau craffu a'r cyngor
- Cyflog arweinydd yr wrthblaid fwyaf
- Cap ar nifer y cyflogau uwch i'w talu
- Taliadau i aelodau cyfetholedig ac aelodau lleyg
- Rheolau o ran treuliau a dyfeisiau cyfathrebu ac ati

Mae'r symiau hyn wedi eu nodi yn Adroddiad Blynyddol y Panel. Mae'r adroddiad blynyddol drafft yn cael ei gynhyrchu yn yr hydref (dyna pam bod y cyfarfodydd diweddar wedi eu trefnu) ac mae'r adroddiad terfynol fel rheol yn barod fis Chwefror ac yn cael ei fabwysiadu yn ystod blwyddyn nesaf y cyngor.

Dywedodd JH bod yr aelod o'r panel eisiau gwybod pa waith yr oedd y Pwyllgor Safonau yn ymgymryd ag o; y math o weithgaredd; ar gyfer beth yr oeddynt yn cael eu talu; a pha wybodaeth y mae aelodau'r pwyllgor wedi ei dderbyn ynglŷn â'r hyn y gallant ei hawlio.

Teimlodd JH, oherwydd y byddant yn llenwi seddi gwag ar y pwyllgor gyda hyn, ei bod yn briodol trafod ac egluro:

1. yr hyn y mae modd i aelodau ei hawlio;
2. a'r hyn sydd y tu hwnt i gylch gwaith y Pwyllgor e.e. a oes yn rhaid i aelodau fynychu cyfarfodydd Cynghorau Tref a Chymuned os nad oes ganddynt gar neu os oes ganddynt gyfrifoldebau gofalu

Cytunodd y Cadeirydd bod angen rhoi fframwaith cliriach ar waith. Mae ar yr aelodau angen gwybod ar gyfer beth y mae modd iddynt dderbyn tâl ar ei gyfer. Gofynnodd am gadarnhad ynghylch ai 10 diwrnod y flwyddyn yw nifer y dyddiadau taledig y gall aelodau lleyg eu derbyn. **GW i edrych i mewn i hyn.**

***PENDERFYNWYD:***

1. *nodi'r presenoldeb a diweddaru'r adroddiad presenoldeb*
2. *cylchredeg y cynllun taliad cydnabyddiaeth presennol ar gyfer aelodau lleyg*
3. *rhoi eitem ar daliadau cydnabyddiaeth / cyfrifoldebau aelodau lleyg ar raglen y Pwyllgor Safonau ar gyfer 8 Rhagfyr 2017.*

## 8 RHAGLEN GWAITH I'R DYFODOL Y PWYLLGOR SAFONAU

Dywedodd y Swyddog Monitro bod cyfarfod nesaf y Pwyllgor Safonau yn cael ei gynnal yr un pryd â Fforwm Safonau Gogledd Cymru yn Wrecsam ar 24 Tachwedd 2017. Cytunodd y Pwyllgor i aildrefnu'r cyfarfod ar gyfer 8 Rhagfyr 2017.

Cyflwynwyd Rhaglen Gwaith i'r Dyfodol y Pwyllgor Safonau i'w hystyried a chytunodd yr aelodau ar yr ychwanegiadau canlynol:-

- ''Taliad cydnabyddiaeth a chyfrifoldebau aelodau lleyg' ac
- 'Adolygu'r Protocol Hunan Reoleiddio a'i ddefnyddio gan Gynghorau Tref, Cymuned a Dinas' at raglen cyfarfod mis Rhagfyr

,***PENDERFYNWYD****, yn amodol ar ychwanegu'r uchod, bod y Pwyllgor Safonau'n cytuno ar y Rhaglen Gwaith i'r Dyfodol.*

## 9 DYDDIAD Y CYFARFOD NESAF

Atgoffwyd yr aelodau bod cyfarfod nesaf y Pwyllgor Safonau wedi ei ail-drefnu ar gyfer 10am dydd Gwener 8 Rhagfyr yn Ystafell y Cabinet, Neuadd y Sir, Rhuthun.

## 10 COD YMDDYGIAD - RHAN 3 DEDDF LLYWODRAETH LEOL 2000

Cyflwynodd y Swyddog Monitro adroddiad cyfrinachol (a ddosbarthwyd ymlaen llaw) a oedd yn rhoi trosolwg i'r Aelodau o'r cwynion a gyflwynwyd i Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru ers 1 Ebrill 2014.

Roedd y Pwyllgor Safonau eisoes wedi gofyn am gael gwybod yn rheolaidd am lefel y cwynion a gyflwynwyd i Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru. Mae'r tablau yn Atodiad 1 yn rhoi trosolwg o'r cwynion a gyflwynwyd ers 1 Ebrill 2014.

Amlygodd y Swyddog Monitro nad yw'r tabl wedi newid ers y chwarter diwethaf a dywedodd ei fod yn ymwybodol o ddwy gŵyn a fydd o bosibl yn ymddangos ar yr adroddiad chwarterol nesaf.

***PENDERFYNWYD*** *bod y Pwyllgor Safonau yn derbyn ac yn nodi cynnwys yr adroddiad.*

Daeth y cyfarfod i ben am 11.45am.

**Adroddiad i'r:** **Pwyllgor Safonau**

**Dyddiad y Cyfarfod:** **3 Ebrill 2018**

**Aelod / Swyddog Arweiniol:** **Gary Williams, Swyddog Monitro**

**Awdur yr Adroddiad:** **Gary Williams, Swyddog Monitro**

**Teitl:** **Llyfr Achosion Cod Ymddygiad - Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru**

---

**1. Am beth mae'r adroddiad yn sôn?**

Mae'r adroddiad yn ymwneud â Llyfr Achosion Cod Ymddygiad gan Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru (yr Ombwdsmon).

**2. Beth yw'r rheswm dros lunio'r adroddiad hwn?**

Hysbysu'r Pwyllgor o rifynnau diweddaraf Llyfr Achos Cod Ymddygiad yr Ombwdsmon.

**3. Beth yw'r Argymhellion?**

Bod aelodau'r Pwyllgor yn nodi'r wybodaeth sydd yn Llyfr Achos y Cod Ymddygiad.

**4. Manylion yr adroddiad.**

4.1 Ers 2013 mae'r Ombwdsmon wedi cynhyrchu Llyfr Achosion Cod Ymddygiad (y Llyfr Achosion). Am beth amser cyn hynny bu'r Ombwdsmon yn cynhyrchu llyfr achosion oedd yn ymwneud â'r cwynion y bu'n ymchwilio iddynt o safbwynt camweinyddu honedig gan gyrff cyhoeddus. Yn dilyn galwadau i ddefnyddio dull tebyg o safbwynt cwynion cod ymddygiad, dechreuodd yr Ombwdsmon gyhoeddi'r Llyfr Achosion yn 2013.

4.2 Yn wreiddiol, roedd y Llyfr Achosion yn cael ei gyhoeddi ddwywaith y flwyddyn, fodd bynnag mae'r Ombwdsmon wedi penderfynu cynhyrchu'r llyfr achosion yn chwarterol o Ebrill 2015. Mae'r Llyfr Achosion yn cynnwys crynodeb o bob achos y mae'r Ombwdsmon wedi cwblhau ymchwiliad iddynt yn ystod y cyfnod perthnasol.

4.3 Cynhyrchwyd y Llyfr Achosion i gynorthwyo Aelodau ac eraill i ystyried a yw'r amgylchiadau y maent yn eu hwynebu yn arwain at dorri'r Cod. Roedd hyn yn ychwanegiad i gyhoeddi esiamplau gwirioneddol yng Nghanllaw Ombwdsman Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru ynglŷn â'r Cod.

4.4 Bydd y Llyfr Achosion yn caniatáu mynediad i Bwyllgorau Safonau awdurdod lleol i wybodaeth am y ffordd mae Pwyllgorau Safonau eraill yng Nghymru yn gosod sancsiynau a chael gwared ar achosion ac yn helpu i esbonio pam, mewn rhai achosion y gall yr Ombwdsmon wrthod ymchwilio toriadau honedig ar y sail nad yw honiadau blaenorol tebyg wedi arwain at sancsiwn.

4.5 Mae Atodiad 1 i'r adroddiad hwn yn cynnwys Rhifyn 14 o'r Llyfr Achosion a gyhoeddwyd ym mis Tachwedd 2017, yn trafod y cyfnod o fis Gorffennaf 2017 tan fis Medi 2017. Bydd Aelodau'n nodi bod 4 crynodeb achos yn y rhifyn hwn o'r llyfr achosion, gyda 3 ohonynt heb dystiolaeth o dorri unrhyw amod y cod. Roedd un o'r achosion hyn yn ymwneud â honiad bod Cynghorydd wedi ceisio mantais bersonol drwy wneud datganiadau camarweiniol ar daflen, roedd un arall yn ymwneud â honiad bod aelod wedi ymddwyn yn amharchus ac anystyriol o flaen aelod arall a'r trydydd yn ymwneud â honiad o fethu datgan cysylltiad.

4.6 Ni chyfeiriwyd unrhyw achos at Bwyllgor Safonau yn ystod y cyfnod dan sylw. Fodd bynnag, cyfeiriwyd un achos at Banel Dyfarnu Cymru. Roedd yr achos hwn yn ymwneud â chwyn bod cyn-gynghorydd Sir y Fflint wedi methu dangos parch ac ystyriaeth at eraill ac wedi defnyddio tactegau bwlio ac aflonyddu. Roedd y gŵyn yn ymwneud â dwy neges e-bost a anfonwyd at reolwr tîm yn yr awdurdod hwnnw, a oedd wedi ei gopïo i uwch swyddogion a sawl aelod arall. Daeth yr Ombwdsman i'r casgliad bod y ddwy neges yn ddi-chwaeth ac yn ddifrïol. Roedd hefyd yn eu hystyried yn fygythiol a maleisus a'u bod yn tanseilio ac yn sarhau'r derbynnydd.

4.7 Nid oedd y cynghorydd dan sylw wedi sefyll yn etholiadau mis Mai 2017, fodd bynnag, roedd yr Ombwdsman yn credu bod yr achos hwn o dorri'r cod ymddygiad yn ddigon difrifol i'w ddilyn a bod hynny er budd y cyhoedd. Cyfeiriwyd yr achos at Banel Dyfarnu Cymru. Daeth y Panel i'r casgliad bod y ddwy neges e-bost a'r neges ddilynol ar gyfrwng cymdeithasol yn dangos amarch a diffyg ystyriaeth ac yn achos o fwlio ac aflonyddu swyddog o'r Cyngor. O ganlyniad cafodd y cyn-gynghorydd ei wahardd am 14 mis rhag bod na dod yn aelod o unrhyw awdurdod perthnasol.

4.8 Mae Atodiad 2 i'r adroddiad hwn yn cynnwys Rhifyn 15 o'r Llyfr Achosion yn cynnwys y cyfnod Hydref hyd at Ragfyr 2017. Ni chyfeiriwyd unrhyw achos at Bwyllgor Safonau nac at Banel Dyfarnu Cymru yn ystod y cyfnod hwn.

4.9 Mae'r rhifyn hwn o'r Llyfr Achosion yn cynnwys 5 crynodeb, ond does dim ohonynt yn ymwneud â Chynghorwyr na Chynghorau yn Sir Ddinbych. Cafodd y cwynion hyn oll eu hymchwilio gan yr Ombwdsman. Yn y 4 achos, daeth yr Ombwdsmon i'r canlyniad nad oedd tystiolaeth o dorri'r Cod Ymddygiad. Roedd tri o'r achosion yn ymwneud â honiadau bod y Cynghorydd wedi methu hyrwyddo cydraddoldeb a pharch ac roedd y pedwerydd yn ymwneud â chwestiwn o uniondeb personol ac a wnaeth hyn ddwyn anfri ar y Cyngor neu swyddfa Cynghorydd.

4.10 Yn y pumed achos, ymchwiliodd yr Ombwdsman honiad oedd yn ymwneud â methu datgan cysylltiad. Roedd y Cynghorydd wedi anfon gwrthwynebiadau ysgrifenedig i'r Cyngor ynglŷn â chais cynllunio ar safle ger ei gartref. Roedd y gwrthwynebiad wedi ei anfon o'i gyfeiriad e-bost swyddogol gyda'r Cyngor. Daeth yr Ombwdsman i'r casgliad ei fod yn debygol bod y Cod wedi ei dorri, fodd bynnag, penderfynodd nad oedd angen gweithredu ymhellach oherwydd edifeirwch y Cynghorydd, a'i fod wedi tynnu'r gwrthwynebiad yn ôl yn sydyn pan fynegwyd pryderon. Ystyriwyd eglurhad y Cynghorydd ei fod wedi dewis ei gyfeiriad e-bost Cyngor mewn camgymeriad o gwymplen, a'r ffaith bod y cais wedi derbyn caniatâd ac nad oedd wedi ei effeithio yn niweidiol gan y gwrthwynebiad.

**5. Sut mae'r penderfyniad yn cyfrannu at y Blaenoriaethau Corfforaethol?**

Nid yw'r penderfyniad yn cael effaith uniongyrchol ar y blaenoriaethau corfforaethol.

**6. Faint fydd yn ei gostio a sut fydd yn effeithio ar wasanaethau eraill?**

Nid oes costau uniongyrchol yn gysylltiedig â'r adroddiad hwn.

**7. Beth yw prif gasgliadau'r Asesiad o'r Effaith ar Les?**

Nid oes angen asesiad o'r effaith ar gydraddoldeb ar gyfer yr adroddiad hwn.

**8. Pa ymgynghoriadau sydd wedi eu cynnal gyda'r Pwyllgor Archwilio ac eraill?**

Nid yw'r mater hwn wedi ei adrodd nac wedi ei ymgynghori arno yn unrhyw le arall.

**9. Datganiad y Prif Swyddog Cyllid**

Nid oes unrhyw oblygiadau ariannol uniongyrchol o ganlyniad i'r adroddiad hwn.

**10. Pa risgiau sydd yna ac oes yna unrhyw beth y gallwn ei wneud i'w lleihau?**

Nid oes unrhyw risgiau uniongyrchol sy'n gysylltiedig â'r adroddiad hwn.

**11. Pŵer i wneud y Penderfyniad**

Nid oes angen gwneud penderfyniad.

Mae tudalen hwn yn fwriadol wag

# Coflyfr

## Y Cod Ymddygiad

Ombwdsmon
OMBWDSMON GWASANAETHAU CYHOEDDUS CYMRU

Rhifyn 15 Ionawr 2018

# Cynnwys

| | |
|---|---|
| Cyflwyniad | 1 |
| Dim tystiolaeth o dor-amod | 3 |
| Nid oes angen gweithredu | 5 |
| Cyfeiriwyd at bwyllgor safonau | 6 |
| Cyfeiriwyd at Banel Dyfarnu Cymru | 7 |
| Mwy o Wybodaeth | 8 |

# Cyflwyniad

Mae Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru yn ystyried cwynion bod aelodau awdurdodau lleol yng Nghymru wedi gweithredu'n groes i'r Cod Ymddygiad. Mae'r Ombwdsmon yn ymchwilio i gwynion o'r fath o dan ddarpariaethau Rhan III Deddf Llywodraeth Leol 2000 a'r Gorchmynion perthnasol a wneir gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru o dan y Ddeddf.

Pan fydd yr Ombwdsmon yn penderfynu y dylid ymchwilio i gŵyn, mae yna bedwar canfyddiad, sydd wedi'u nodi yn adran 69 Deddf Llywodraeth Leol 2000, y gall yr Ombwdsmon eu datgan:

(a) nad oes tystiolaeth bod unrhyw achos o weithredu'n groes i god ymddygiad yr awdurdod;

(b) nad oes angen cymryd unrhyw gamau mewn cysylltiad i'r materion a fu'n destun i'r ymchwiliad;

(c) bod angen cyfeirio'r mater i swyddog monitro'r awdurdod, i'w ystyried gan y pwyllgor safonau;

(d) bod angen cyfeirio'r mater i Lywydd Panel Dyfarnu Cymru ar gyfer dyfarniad gan dribiwnlys (mae hyn yn digwydd mewn achosion mwy difrifol fel arfer).

Yn amgylchiadau (c) a (d) uchod, mae'n ofynnol i'r Ombwdsmon gyflwyno adroddiad am yr ymchwiliad i'r pwyllgor safonau neu dribiwnlys Panel Dyfarnu Cymru, yna byddant hwy'n ystyried y dystiolaeth a ganfuwyd gan yr Ombwdsmon, ynghyd ag unrhyw amddiffyniad a gyflwynir gan yr aelod dan sylw. Hwy hefyd fydd yn penderfynu a oes achos o weithredu'n groes i'r Cod ai peidio, ac os oes, pa gosb (os o gwbl) y dylid ei chyflwyno.

Mae'r Llyfr Achosion Cod Ymddygiad yn cynnwys crynodebau o'r adroddiadau hynny lle cafwyd un o'r canfyddiadau wedi'u gosod allan uchod. Er hynny, yn achos canfyddiadau (c) a (d), bydd y Coflyfr Cod Ymddygiad ond yn cynnwys crynodebau'r achosion hynny y mae gwrandawiadau wedi'u cynnal gan y pwyllgor safonau neu Banel Dyfarnu Cymru, a bod canlyniad y gwrandawiad hwnnw'n hysbys. Mae'r rhifyn hyn yn adrodd ar y cyfnod Hydref i Rhagfyr 2017.

# Crynodebau Achosion

## Dim tystiolaeth o dorri'r cod

Cyngor Caerdydd – Hybu cydraddoldeb a pharch
Rhif yr Achos 201606695 – Cyhoeddwyd yr adroddiad ym mis Hydref 2017
Gwnaethpwyd cwyn fod aelod ("y Cynghorydd") o Gyngor Caerdydd ("y Cyngor") wedi torri Cod Ymddygiad yr Awdurdod ar gyfer aelodau etholedig. Honnir iddo wneud sylwadau ynglŷn â chymdeithas grefyddol leol, a hynny ar ddau achlysur mewn trafodaethau â chyn-gynghorydd.

Bu'r gŵyn yn destun ymchwiliad ar y sail ei bod yn bosib fod yr aelod wedi torri paragraffau 4(a), 4(b), 4(d) a 6(1)(a), sy'n ymwneud a chydraddoldeb, parch a didueddrwydd ynghyd â dwyn anfri ar eu swydd neu awdurdod.

Canfu'r ymchwiliad nad oedd tystion i'r naill na'r llall o'r trafodaethau a gafodd yr aelod â'r cyn-gynghorydd. Mae'r aelod hefyd wedi gwadu'r honiadau'n gryf. Felly, o dan adran 69(4)(a) o Ddeddf Llywodraeth Leol 2000, penderfyniad yr Ombwdsmon oedd nad oedd unrhyw dystiolaeth fod yr aelod wedi methu â chydymffurfio â'r Cod Ymddygiad.

Cyngor Bwrdeistref Sirol Merthyr Tudful - Uniondeb
Rhif yr Achos 201700102 – Cyhoeddwyd yr adroddiad ym mis hydref 2017
Gwnaethpwyd cwyn fod aelod ("y Cynghorydd") o Gyngor Bwrdeistref Sirol Merthyr Tudful ("y Cyngor") wedi torri Cod Ymddygiad yr Awdurdod ar gyfer aelodau etholedig pan wnaeth sylwadau am aelod o'r cyhoedd mewn trafodaeth grŵp ar Facebook messenger.

Bu'r gŵyn yn destun ymchwiliad ar y sail ei bod yn bosib fod yr aelod wedi torri paragraff 6(1)(a) o'r Cod, trwy ddwyn anfri ar ei swydd neu awdurdod.

Roedd yr Ombwdsmon o'r farn fod sylwadau'r Cynghorydd yn hynod o ddi-chwaeth. Fodd bynnag, cymerodd i ystyriaeth y ffaith mai dim ond tri aelod oedd yn y grŵp Facebook messenger lle wnaeth y Cynghorydd ei sylwadau. Roedd yn glir fod y Cynghorydd yn edifarhau a phan wnaeth hi sylweddoli fod yr unigolyn dan sylw yn ymwybodol o'r hyn yr oedd hi wedi ei bostio fe wnaeth hi ymddiheuro'n llawn.

Er bod ymddygiad y Cynghorydd wedi dwyn anfri arni hi ei hun, am y rhesymau a amlinellir uchod, canfu'r ymchwiliad nad oedd hi wedi dwyn anfri ar ei swydd na'r awdurdod. Felly, o dan adran 69(4)(a) o Ddeddf Llywodraeth Leol 2000, penderfyniad yr Ombwdsmon oedd nad oedd unrhyw dystiolaeth fod yr aelod wedi methu â chydymffurfio â'r Cod Ymddygiad. Fodd bynnag, atgoffwyd y Cynghorydd o'i chyfrifoldebau ac i fod yn ofalus wrth fynegi barn bersonol.

Cyngor Tref Tywyn a Chyngor Gwynedd– Hybu Cydraddoldeb a Pharch
Rhif yr Achos 201607353 a 201607357 – Cyhoeddwyd yr adroddiad ym mis Hydref 2017
Cwynodd Cynghorydd X fod aelod ("Cynghorydd Y") o Gyngor Tref Tywyn a Chyngor Gwynedd wedi torri Cod Ymddygiad yr Awdurdod ar gyfer aelodau etholedig trwy wneud honiadau personol amdani.

Darparodd Cynghorydd X dystiolaeth fod Cynghorydd Y wedi gwneud sylwadau amdani mewn amryw o e-byst oedd wedi eu hanfon at aelodau o Gyngor Tref Tywyn a Chyngor Gwynedd.

Bu'r gŵyn yn destun ymchwiliad ar y sail ei bod yn bosib fod Cynghorydd Y wedi torri paragraff 4(b) (methiant i ddangos parch ac ystyriaeth), 4(c) (bwlio ac aflonyddu), a 6(1)(a) (dwyn anfri ar ei swydd neu awdurdod).

Nid oedd yr Ombwdsmon o'r farn fod sylwadau Cynghorydd Y yn ddigon sarhaus i dorri Paragraff 4(b) o'r Cod Ymddygiad. Nid oedd chwaith o'r farn ei fod yn ddigon difrifol i dorri paragraff 4(c) o'r Cod.

O ran paragraff 6(1)(a) o'r Cod, doedd dim tystiolaeth fod Cynghorydd Y wedi rhannu'r e-byst ag aelodau o'r cyhoedd. Roedd wedi anfon un e-bost at aelod o'r wasg, ac er bod yr Ombwdsmon o'r farn fod hyn yn annoeth, doedd dim wedi dod yn ei sgil ac nid oedd wedi cael ei rannu ymhellach. Felly, nid oedd yr Ombwdsmon o'r farn bod canlyniadau'r hyn a wnaeth yn ddigon difrifol i ddwyn anfri ar ei swydd neu awdurdod.

Er bod yr Ombwdsmon o'r farn nad oedd nad oedd tystiolaeth fod Cynghorydd Y wedi torri'r Cod ymddygiad, atgoffwyd ef o'i gyfrifoldebau ac i fod yn ymwybodol yn y dyfodol o'r ffordd y mae pobl eraill yn gweld ei sylwadau.

### Cyngor Cymuned Llansannan– Hybu Cydraddoldeb a Pharch
### Rhif yr Achos 201700953 – Cyhoeddwyd yr adroddiad ym mis Tachwedd 2017

Cwynodd Mr X fod aelod ("y Cynghorydd") o Gyngor Cymuned Llansannan ("y Cyngor Cymuned") wedi torri'r Cod Ymddygiad ar gyfer aelodau trwy ofyn i Mr X adael cyfarfod o'r Cyngor Cymuned gan ddefnyddio'r geiriau "er dy les dy hun", geiriau yr oedd Mr X yn eu hystyried yn fygythiad.

Bu'r gŵyn yn destun ymchwiliad ar y sail ei bod yn bosib fod yna fethiant i gydymffurfio â pharagraffau canlynol y Cod Ymddygiad ar gyfer aelodau etholedig:

- 4(b) - dylech ddangos parch ac ystyriaeth at eraill; ac
- 4(c) - ni ddylech ymddwyn fel bwli nac aflonyddu ar unrhyw berson.

Doedd dim tystiolaeth fod ymddygiad y Cynghorydd tuag at Mr X yn fygythiol mewn unrhyw ffordd ac roedd yr Ombwdsmon yn fodlon fod ymddygiad y Cynghorydd yn rhesymol o dan yr amgylchiadau.

O dan adran 69(4)(a) o Ddeddf Llywodraeth Leol 2000, penderfyniad yr Ombwdsmon oedd nad oedd unrhyw dystiolaeth fod yr aelod wedi methu â chydymffurfio â'r Cod Ymddygiad.

# Nid oes angen gweithredu

Bwrdeistref Sirol Cyngor Conwy - Datgelu a chofrestru buddiannau
Rhif yr Achos 201702250 – Cyhoeddwyd yr adroddiad ym mis Hydref 2017

Derbyniodd yr Ombwdsmon gŵyn fod aelod o Gyngor Bwrdeistref Sirol Conwy ("y Cynghorydd") wedi torri'r Cod Ymddygiad trwy gyflwyno gwrthwynebiad ysgrifenedig, yn rhinwedd ei swydd, i gais cynllunio roedd yr achwynwr wedi ei gyflwyno i'r Cyngor.  Mae'r Cynghorydd yn byw ger safle'r cais, a gallai gael effaith bersonol arno.

Daeth yr Ombwdsmon i'r casgliad fod y Cynghorydd wedi torri'r Cod o oherwydd bod y datblygiad yn agos at ei gartref a'r ffaith ei fod wedi anfon ei wrthwynebiad o'i gyfeiriad e-bost Cyngor ac wedi ei arwyddo "Y Cynghorydd [Enw]".  Fodd bynnag, penderfynodd yr Ombwdsmon beidio â gweithredu yn yr achos yma gan fod y Cynghorydd yn edifarhau ac wedi ymddiheuro. Roedd ei esboniad ei fod wedi dewis ei gyfeiriad e-bost Cyngor mewn camgymeriad o gwymprestr wrth ysgrifennu'r e-bost yn gredadwy ac roedd wedi tynnu ei wrthwynebiad yn ôl yn syth pan ddaeth pryderon i'r amlwg. Ni chafodd unrhyw effaith ar y cais cynllunio, a chafodd hwnnw ei gymeradwyo.

## Cyfeiriwyd at y Pwyllgor Safonau

Nid oes crynodebau yn gysylltiedig â'r canfyddiad hwn

## Cyfeiriwyd at Banel Dyfarnu Cymru

Nid oes crynodebau yn gysylltiedig â'r canfyddiad hwn

## Mwy o wybodaeth

Rydym yn gwerthfawrogi unrhyw sylwadau neu adborth sydd gennych chi am Coflyfr y Cod Ymddygiad. Yn ogystal, byddem yn fodlon ateb unrhyw ymholiadau sydd gennych ynghylch ei gynnwys. Mae modd anfon unrhyw ohebiaeth o'r fath mewn neges e-bost at Matthew.Aplin@ombwdsmon-cymru.org.uk neu i'r cyfeiriad canlynol:

Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru
1 Ffordd yr Hen Gae
Pencoed
CF35 5LJ

Ffôn 01656 644200
Ffacs 01656 641199

e-bost holwch@ombwdsmon-cymru.org.uk (ymholiadau cyffredinol)

Dilynwch ni ar Twitter: @OmbudsmanWales

Ceir rhagor o wybodaeth am y gwasanaeth sy'n cael ei gynnig gan Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru ar ein gwefan www.ombwdsmon-cymru.org.uk

**Adroddiad i'r i:** **Pwyllgor Safonau**

**Dyddiad y Cyfarfod:** **3 Ebrill 2018**

**Aelod / Swyddog Arweiniol:** **Gary Williams, Swyddog Monitro**

**Awdur yr Adroddiad:** **Gary Williams, Swyddog Monitro**

**Teitl:** **Cais am Ollyngiad gan Aelodau o Gyngor Cymunedol Llanbedr, Dyffryn Clwyd**

## 1. Am beth mae'r adroddiad yn sôn?

**1.1** Mae'r adroddiad hwn yn ymwneud â chais am ollyngiad gan Aelodau Cyngor Cymunedol Llanbedr, Dyffryn Clwyd

## 2. Beth yw'r rheswm dros lunio'r adroddiad hwn?

**2.1** Galluogi'r Pwyllgor i ystyried cefndir y cais am ollyngiad a'r darpariaethau cyfreithiol perthnasol cyn penderfynu a ddylid caniatáu'r gollyngiad.

## 3. Beth yw'r Argymhellion?

**3.1** Dylai'r Pwyllgor ystyried y cais am ollyngiad a phenderfynu a ddylid caniatáu'r gollyngiad ac, os felly, y sail dros ganiatáu'r gollyngiad.

## 4. Manylion yr adroddiad

**4.1** Mae Cod Ymddygiad yr Aelodau yn datgan fod yn rhaid i aelod o awdurdod lleol sydd â chysylltiad sy'n rhagfarnu mewn mater adael y siambr pan fydd y mater hwnnw yn cael ei drafod ac yn peidio â chymryd unrhyw ran wrth ystyried y mater hwnnw, oni bai fod yr aelod wedi cael gollyngiad gan Bwyllgor Safonau'r awdurdod hwnnw.

**4.2** Mae a81(4) Deddf Llywodraeth Leol 2000 yn rhoi grym i'r Pwyllgorau Safonau i ganiatáu gollyngiadau yn unol â rheoliadau a wnaed gan Weinidogion Cymru o dan a81(5) y Ddeddf yn rhagnodi'r amgylchiadau hynny lle gallant wneud hyn.

**4.3** Y rheoliadau perthnasol yw Rheoliadau Pwyllgorau Safonau (Caniatáu Gollyngiadau) (Cymru) 2001 (y Rheoliadau).

**4.4** Mae'r Swyddog Monitro wedi derbyn cais am ollyngiad gan Glerc Cyngor Cymunedol Llanbedr Dyffryn Clwyd ar ran aelodau presennol y Cyngor Cymuned mewn perthynas â'u haelodaeth o gorff gwirfoddol, sy'n cael ei gynnwys mewn creu canolfan gymunedol yn y Griffin Inn ym mhentref Llanbedr. Mae copi o'r cais ynghlwm yn Atodiad 1. Mae'r cais wedi cael ei lofnodi gan bob un o aelodau presennol y Cyngor Cymunedol.

**4.5** Mae'r cais yn egluro y bydd yn rhaid i'r Cyngor Cymuned ystyried ceisiadau gan y corff hwn am gymorth ariannol ac am y rheswm hwn, mae aelodau'r Cyngor Cymunedol yn gofyn am ollyngiad.

**4.6** Mae’r Rheoliadau yn amlinellu ar ba sail y gall y Pwyllgor Safonau ganiatáu gollyngiad. Amlinellir Rheoliad 2 y Rheoliadau fel Atodiad 2 yr adroddiad hwn ac mae’n rhestru dan ba amgylchiadau y gellir caniatáu gollyngiad. Awgrymir mai’r amgylchiadau mwyaf perthnasol i’r cais hwn yw’r rhai a amlinellir yn Rheoliad 2(a), (d), a (h)

**4.7** Os yw’r Pwyllgor o blaid caniatáu gollyngiad, rhaid iddo ystyried a yw’n dymuno caniatáu’r gollyngiad yn unol â’r cais neu a yw'n gosod unrhyw gyfyngiad ar weithrediad y gollyngiad, gan gynnwys am ba hyd y bydd y gollyngiad mewn grym.

**4.8** Os caniateir gollyngiad, rhaid i unrhyw aelod sy’n elwa o hyn barhau i ddatgan cysylltiad personol mewn unrhyw fater yn ymwneud â’r corff gwirfoddol a datgan bodolaeth a natur y gollyngiad a roddwyd.

**5. Sut mae'r penderfyniad yn cyfrannu at y Blaenoriaethau Corfforaethol?**

Nid yw'r penderfyniad yn cael effaith uniongyrchol ar y Blaenoriaethau Corfforaethol.

**6. Faint fydd yn ei gostio a sut fydd yn effeithio ar wasanaethau eraill?**

**6.1** Nid oes unrhyw gostau uniongyrchol yn gysylltiedig â’r adroddiad hwn.

**7. Beth yw prif gasgliadau’r Asesiad o Effaith ar Les? Gellir lawrlwytho adroddiad cyflawn yr Asesiad o Effaith ar Les oddi ar y wefan a dylid ei gynnwys fel atodiad i'r adroddiad hwn**

**7.1** Nid yw’r adroddiad hwn yn ceisio cyflwyno newid neu gynnig a fyddai’n gofyn am asesiad o’r fath.

**8. Pa ymgynghoriadau a gynhaliwyd gydag Archwilio ac eraill?**

**8.1** Ni ymgynghorwyd ag Archwilio mewn perthynas â’r mater hwn.

**9. Datganiad y Prif Swyddog Cyllid**

**9.1** Nid oes unrhyw oblygiadau ariannol uniongyrchol o ganlyniad i’r adroddiad hwn.

**10. Pa risgiau sydd ac oes unrhyw beth y gallwn ei wneud i'w lleihau?**

**10.1** Mae risg na fyddai Aelodau yn gallu ystyried ceisiadau am gymorth ariannol gan y corff gwirfoddol os nad ydynt yn cael gollyngiad.

**11. Pŵer i wneud y Penderfyniad**

**11.1** a81(4) Deddf Llywodraeth Leol 2000 Rheoliadau Pwyllgorau Safonau (Caniatáu Gollyngiadau) (Cymru) 2001

# Cyngor Cymuned LLANBEDR D.C. Community Council

**IFAN GWYN DAVIES**
**Clerc y Cyngor/Clerk to the Council**

**Rhif Teleffon/Telephone Number**
**(01824) 750283 - 07887 955613**
**e-bost/e-mail: ifandavies18@yahoo.co.uk**

Adran Gwasanaethau Cyfreithiol a Democrataidd
Legal and Democratic Services Department
30 NOV 2017

**11 Maes Caenog**
**Clocaenog**
**Rhuthun**
**LL15 2AU**

**Ein Cyf./Our Ref.**

**Eich Cyf./Your Ref.**

**Dyddiad/Date**

Mr G Williams
The Monitoring Officer
Denbighshire County Council
PO Box 62,
Ruthin LL15 9AZ

24th November 2017.

Dear Mr Williams,

**Re: Llanbedr Dyffryn Clwyd Community Council Dispensation Request under Regulation 2**

I attach details of how the Community Hub for Llanbedr Dyffryn Clwyd Project evolved, culminating in the purchase of the Griffin Inn by a local resident, who wishes to work with the Council in order to implement the recommendations in the Cadwyn Clwyd Consultant's Report.

The Council's chairman and vice chairman have been invited to help set up the Management Group, which will be responsible for creating the Community Hub and will appoint tenants to run the retail activities recommended by the Consultants.

The Outline Business Plan recommended by the Cadwyn Clwyd Consultant works on the premise that a Community Benefit Society (CBS) will be formed as a legal entity. It is likely that some or even all Community Councillors will wish to join the CBS.

The Council wishes to be pro-active in working the new owner, with the support and guidance of Cadwyn Clwyd. There will be a need to obtain grants to refurbish the Griffin Inn and the Council will need to obtain membership of organisations who can assist this project such as Pub is The Hub, The Plunkett Foundation and the Wales Co-operative Centre. Membership fees range from £50 for the Wales Co-operative Centre to £75 for Supporter membership of the Plunkett Foundation.

It is likely that volunteer groups will need to be established to support key elements of the Hub and Councillors will wish to join one or more these groups.

At the May Local Government Elections, eight people were nominated for the nine seats on Llanbedr DC Community Council. Two Councillors have since resigned so we currently have only six Councillors.

The Consultant's Report (see Appendix 3) includes: *initial management costs will be raised through a mix of a Community Share Offer, a possible Community Council loan and grant aid.* We anticipate that the Management

Group and the volunteer groups may need to request further financial support from the Council. The Council is also considering an increase in its precept to cover the need to support this project.

As our quorum is three members, the Council feels the need to request a Grant of Dispensation from the Standards Committee under the 2001 regulations. We anticipate that the dispensation will be needed for a period of no longer than 12 months.

We feel that the circumstances in which dispensations may be granted are covered in:

2 (d), (e), (f), (i) and (j) – see Appendix 2.2 for our justification.

We would appreciate it if this request can be considered at the next Standards Committee Meeting on 8th December 2017.

I attach a copy of the formal letter which each of my current Councillors has signed requesting this Grant of Dispensation from the Standards Committee. I would appreciate your guidance of the procedure future Councillors would have to follow to obtain a Grant of Dispensation.

The attached Appendices include *A Brief Time Line of the Activities that led to the Community Hub Concept* – see Appendix 2.1

I can also provide copies of our minutes, Community Newsletters, the Consultant's survey of the Community and the results. 350 surveys were put out to villagers and 155 were returned, representing a 42% return.

I did not want to overload you and again would be happy to be guided by you what other supporting documentation you would require.

Yours Sincerely

Gwyn Davies,
Clerk to the Council

# Cyngor Cymuned LLANBEDR D.C. Community Council

**IFAN GWYN DAVIES**
**Clerc y Cyngor/Clerk to the Council**

**Rhif Teleffon/Telephone Number**
**(01824) 750283 - 07887 955613**
**e-bost/e-mail: ifandavies18@yahoo.co.uk**

**11 Maes Caenog**
**Clocaenog**
**Rhuthun**
**LL15 2AU**

Mr G Williams
The Monitoring Officer
Denbighshire County Council
PO Box 62,
Ruthin LL15 9AZ

**Ein Cyf./Our Ref.**

**Eich Cyf./Your Ref.**

**Dyddiad/Date** 24/11/17

**Re: Llanbedr Dyffryn Clwyd Community Council Dispensation Request under Regulations 2**

Dear Mr Williams

The undersigned members of Llanbedr Dyffryn Clwyd Community Council request a Grant of Dispensation from the Standards Committee under the 2001 regulations. We anticipate that the dispensation will be needed for a period of no longer than 12 months.

I attach below details of the Community Hub for Llanbedr Dyffryn Clwyd Project for which this Grant of Dispensation is being made.

Yours Sincerely

Gwyn Davies,
Clerk to the Council

| | |
|---|---|
| Cllr Lyn Evans | Chair of Llanbedr Dyffryn Clwyd Community Council |
| Cllr Tim Baker | Vice Chair of Llanbedr Dyffryn Clwyd Community Council |
| Cllr Rhian Jones | Chairman of Leisure & Environmental Areas Advisory Committee (LEAAC) |
| Cllr Linda Roberts | Llanbedr Dyffryn Clwyd Community Councillor |
| Cllr Kenneth Tams | Llanbedr Dyffryn Clwyd Community Councillor |
| Cllr Bob Barton | Llanbedr Dyffryn Clwyd Community Councillor |

Mae tudalen hwn yn fwriadol wag

**Atodiad 2**

Statws: ✅ Cyfraith Mewn Grym

# Rheoliadau Pwyllgorau Safonau (Caniatáu Gollyngiadau) (Cymru) 2001/2279

Daeth y fersiwn hon i rym o: **1 Ebrill, 2016** hyd at y **presennol**

(fersiwn 2 o 2)

## 2. Amgylchiadau lle gellir caniatáu gollyngiadau

Gall pwyllgor safonau awdurdod perthnasol ganiatáu gollyngiad dan adran 81(4) y Ddeddf lle -

(a) mae gan ddim llai na hanner aelodau'r awdurdod perthnasol neu un o bwyllgorau'r awdurdod (yn ôl y digwydd) y bydd y mater yn cael ei ystyried ganddynt gysylltiad sy'n ymwneud â'r mater hwnnw;

(b) mae gan ddim llai na hanner aelodau gweithrediaeth arweinydd a chabinet awdurdod perthnasol y bydd mater yn cael ei ystyried ganddynt gysylltiad sy'n ymwneud â'r mater hwnnw ac mae naill ai paragraff (d) neu (e) hefyd yn berthnasol;

(c) yn achos cyngor sir neu fwrdeistref sirol, byddai analluʼr aelod i gymryd rhan yn rhwystro cydbwysedd gwleidyddol yr awdurdod perthnasol neu bwyllgor yr awdurdod y byddai'r mater yn cael ei ystyried ganddynt i'r fath raddau fel y byddai'n debyg o gael effaith ar y canlyniad;

(d) mae natur cysylltiad yr aelod yn golygu na fyddai cyfranogiad yr aelod yn y mater y mae'r cysylltiad yn ymwneud ag o yn niweidio hyder y cyhoedd yn y modd y cynhelir materion yr awdurdod perthnasol.

(e) mae'r cysylltiad yn gyffredin i'r aelod a chyfran sylweddol o'r cyhoedd;

(f) mae cyfranogiad yr aelod yn y mater y mae'r cysylltiad yn ymwneud ag o wedi ei gyfiawnhau gan swydd neu arbenigedd yr aelod penodol;

(g) mae'r mater y mae'r cysylltiad yn ymwneud ag o yn mynd i gael ei ystyried gan bwyllgor trosolwg ac archwilio'r awdurdod perthnasol ac nid yw cysylltiad yr aelod yn gysylltiad ariannol;

(h) mae'r mater a fydd yn cael ei ystyried yn ymwneud â chyllid neu eiddo

sefydliad gwirfoddol y mae ei bwyllgor neu fwrdd rheoli yn aelod ohono heb law am fel cynrychiolydd yr awdurdod perthnasol ac nad oes gan yr aelod unrhyw gysylltiad arall yn y mater ar yr amod na fydd unrhyw ollyngiad yn ymestyn i gyfranogiad mewn unrhyw bleidlais mewn perthynas â’r mater hwnnw; [...][1]

(i) mae’n ymddangos i’r pwyllgor ei bod er lles preswylwyr yr ardal o’r awdurdod perthnasol y dylid dileu'r analluedd [; neu] [2]

[(j) “mae’n ymddangos i’r pwyllgor ei bod yn briodol mewn modd arall i ganiatáu gollyngiad.

] [3]

## Nodiadau

1 . Di-rymwyd y gair gan Reoliadau Llywodraeth Leol (Pwyllgorau Safonau, Ymchwiliadau, Gollyngiadau ac Atgyfeirio) (Cymru) (Diwygio) 2016/85 rheoliad 4(3)(a) (1 Ebrill, 2016)

2 . Disodlwyd y gair gan Reoliadau Llywodraeth Leol (Pwyllgorau Safonau, Ymchwiliadau, Gollyngiadau ac Atgyfeirio) (Cymru) (Diwygio) 2016/85 rheoliad 4(3)(a) (1 Ebrill, 2016)

3 . Ychwanegwyd y gair gan Reoliadau Llywodraeth Leol (Pwyllgorau Safonau, Ymchwiliadau, Gollyngiadau ac Atgyfeirio) (Cymru) (Diwygio) 2016/85 rheoliad 4(3)(a) (1 Ebrill, 2016)

Atgynhyrchir deunydd Hawlfraint y Goron gyda chaniatâd Rheolydd HMSO ac Argraffydd y Frenhines dros yr Alban

**Testun:** Llywodraeth Leol

| | |
|---|---|
| **Adroddiad i'r:** | **Pwyllgor Safonau** |
| **Dyddiad y Cyfarfod:** | **3 Ebrill 2018** |
| **Swyddog Arweiniol:** | **Gary Williams (Pennaeth y Gwasanaethau Cyfreithiol, Adnoddau Dynol a Democrataidd)** |
| **Awdur yr Adroddiad:** | **Steve Price (Rheolwr y Gwasanaethau Democrataidd)** |
| **Teitl:** | **Tâl Aelodau Lleyg** |

## 1. Am beth mae'r adroddiad yn sôn?

Mae Panel Annibynnol Cymru ar Gydnabyddiaeth Ariannol yn cyhoeddi adroddiad blynyddol ar lefel taliadau a chynhaliaeth i aelodau lleyg a chyfetholedig bob blwyddyn. Yn ddiweddar, fe wahoddodd y Panel aelodau cyfetholedig a lleyg i drafod y cynllun taliadau cenedlaethol. Mae'r adroddiad hwn yn cynnwys gwybodaeth am y cynllun cenedlaethol sydd ar waith gan Gyngor Sir Ddinbych ac, yn benodol, ei sut mae'n cael ei weithredu ar gyfer aelodau lleyg a chyfetholedig pwyllgorau'r Cyngor.

## 2. Beth yw'r rheswm dros lunio'r adroddiad hwn?

Ar 22 Medi, gofynnodd y Pwyllgor Safonau bod adroddiad ar dâl a chyfrifoldebau aelodau lleyg yn cael ei ystyried yng nghyfarfod y pwyllgor ym mis Rhagfyr. Mae aelodaeth y Pwyllgor Safonau yn cynnwys aelodau lleyg.

## 3. Beth yw'r Argymhellion?

Bod y pwyllgor yn ystyried y wybodaeth a'r materion sydd yn yr adroddiad hwn.

## 4. Manylion yr adroddiad

4.1 Ym mis Rhagfyr, bu i Banel Annibynnol Cymru ar Gydnabyddiaeth Ariannol ymweld â Sir Ddinbych yn rhan o raglen o ymweliadau â'r holl awdurdodau unedol. Mae'r Panel yn gosod y fframwaith y mae'n rhaid i awdurdodau gydymffurfio ag o wrth dalu aelodau etholedig ac aelodau lleyg a chyfetholedig eu pwyllgorau. Fel yr amlinellwyd yng nghofnodion mis Medi'r Pwyllgor Safonau, roedd dirprwyaeth y Panel wedi trafod gweithrediad y cynllun tâl yn Sir Ddinbych gydag un o aelodau lleyg y Pwyllgor Safonau. O ganlyniad, roedd y Pwyllgor Safonau wedi gofyn am eglurhad ynglŷn â pha ddyletswyddau fyddai'n gymwys am dâl ac a oedd y Cyngor yn cyfyngu ar nifer yr hawliadau i gyfateb i 10 diwrnod y flwyddyn i bob hawlydd.

4.2 Mae hawl gan aelodau lleyg neu gyfetholedig sydd â hawliau pleidleisio i hawlio ffi ddyddiol o £198 am ddod i gyfarfodydd neu ddigwyddiadau awdurdodedig eraill, neu ffi o £99 am gyfarfodydd neu ddigwyddiadau sy'n para hanner diwrnod. Ffioedd ar gyfer cadeirydd cyfetholedig y Pwyllgor Safonau yw £256 y diwrnod neu £128 am hanner diwrnod. Mae'r Panel Annibynnol yn diffinio hanner diwrnod fel un hyd at 4

awr a diwrnod llawn fel un sydd dros 4 awr ac mae wedi dweud y gellir cynnwys amser rhesymol a dreuliwyd yn paratoi ac yn teithio. Gall graddau'r amser paratoi a ganiateir cyn cyfarfod gael eu pennu gan Reolwr y Gwasanaethau Democrataidd. Mae Atodiad 1 yn ddarn dethol o adroddiad blynyddol drafft y Panel sy'n ymwneud ag aelodau lleyg a chyfetholedig.

4.3 Y cyfarfodydd a'r digwyddiadau awdurdodedig sy'n gymwys am lwfans yw:

- Cyfarfodydd ffurfiol y pwyllgor y mae'r hawlydd yn aelod ohono ac yn pleidleisio.

  *I aelodau'r Pwyllgor Safonau, cyfarfodydd ffurfiol y Pwyllgor Safonau yw'r rhain.*

  *Mae gan Gyngor Sir Ddinbych hefyd aelodau cyfetholedig eraill, gan gynnwys rhai sy'n pleidleisio ar bwyllgor archwilio addysg, sydd â hawl i daliadau am fynd i gyfarfodydd sy'n ystyried materion addysg. Ar gyfer y cyfarfodydd hynny, byddai enwau'r aelodau cyfetholedig wedi'u cynnwys yn yr adran aelodaeth ar y rhaglen. Ni fyddai taliadau am fynd i gyfarfodydd Archwilio nac eitemau ar y rhaglen nad oeddent yn ystyried materion addysg.*

- Digwyddiadau hyfforddi, cynadleddau, cyfarfodydd rhanbarthol neu isranbarthol lle gofynnwyd i'r aelod lleyg fod yn bresennol ac sydd felly wedi'u hawdurdodi gan y Cyngor.

- Cyfarfodydd briffio swyddogol cyn cyfarfodydd gyda'r pwyllgor neu swyddogion i drafod busnes y pwyllgor.

- Bod yn bresennol ar ran y Cyngor yn Fforwm Pwyllgor Safonau Gogledd Cymru.

4.4 Gall awdurdodau lleol benderfynu ar yr uchafswm o ddyddiau y gall aelodau lleyg neu gyfetholedig dderbyn tâl amdanynt mewn blwyddyn. Mae Cyngor Sir Ddinbych wedi penderfynu peidio â gosod uchafswm ar hyn o bryd.

4.5 Fel y noda paragraff 4.3, mae sawl digwyddiad a gweithgaredd y gellir eu cynnwys mewn hawliadau. Mae gwahoddiad ffurfiol i aelod lleyg unrhyw bwyllgor i ddod i gyfarfod lle byddant yn aelod sy'n pleidleisio yn dangos bod eu presenoldeb wedi'i awdurdodi ac y gallant hawlio tâl am yr amser a gymerir. Yn yr un modd, bydd cais i ddod i gyfarfodydd eraill, cyfarfodydd briffio neu ddigwyddiadau lle mae'r cais wedi'i wneud gan swyddog priodol o'r Cyngor fel arfer yn dangos y bydd modd hawlio amdanynt.

4.6 Fel y nodwyd eisoes yn yr adroddiad, daeth Panel Annibynnol Cymru ar Gydnabyddiaeth Ariannol i ymweld â Sir Ddinbych yn ddiweddar, gan gyfarfod gydag aelod o'r Pwyllgor Safonau. Estynnwyd y gwahoddiad i aelodau lleyg a chyfetholedig i ddod i'r cyfarfod i gwrdd â'r Panel gan y Cyngor drwy dîm y Gwasanaethau Democrataidd. Drwy fynd i'r cyfarfod, byddent yn gymwys i hawlio taliad am hanner diwrnod neu ddiwrnod llawn, gan ddibynnu faint o amser a dreuliwyd yno.

4.7 Un o'r dyletswyddau mae aelodau'r Pwyllgor Safonau wedi penderfynu arni yw mynd i gyfarfodydd cynghorau dinas, tref a chymuned ac adrodd yn ôl ar eu hargraffiadau i'r Pwyllgor Safonau. Bwriad yr ymweliadau yw helpu'r cynghorau i wella eu safonau

drwy ddod o hyd i unrhyw broblemau neu ofynion o ran hyfforddiant a rhannu arferion da. Fodd bynnag, mae'r cynghorau hyn yn parhau fel sefydliadau ar wahân, sy'n annibynnol ar y cyngor sir ac nid yw'r ymweliadau wedi'u hawdurdodi i allu hawlio tâl amdanynt ar hyn o bryd, a fyddai fel arall yn gost y byddai angen i'r Cyngor Sir ei hysgwyddo. Mae'r Panel Annibynnol yn amlygu bod fforddiadwyedd yn broblem ar gyfer cynghorau a threthdalwyr ac (ar gyfer aelodau etholedig) mae'n cydnabod bod cyfraniad di-dâl at wasanaeth cyhoeddus wrth ymgymryd â'r swydd, ac nad yw'r Cyngor ei hun yn gwneud yr ymweliadau'n ofynnol nac yn eu trefnu.

4.8 Os oes ansicrwydd, bydd y Swyddog Monitro neu Reolwr y Gwasanaethau Democrataidd yn gallu cadarnhau a fyddai cyfarfodydd neu weithgareddau penodol yn gymwys am dâl am fynd iddynt.

4.9 Mae costau teithio ar gyfer cyfarfodydd a digwyddiadau awdurdodedig hefyd yn cael eu talu gan y Cyngor ac mae'r rhain yn cael eu talu ar gyfradd gyfredol Adran Cyllid a Thollau'r DU, sy'n ad-dalu 45 ceiniog am bob milltir mewn car.

4.10 Gellir defnyddio'r ddolen ganlynol i weld penderfyniadau drafft y Panel Annibynnol ar gyfer blwyddyn gyngor 2018-19:
http://gov.wales/irpwsub/home/publication-reports/financial-year-2018-19/?skip=1&lang=cy

**5. Sut mae'r penderfyniad yn cyfrannu at y Blaenoriaethau Corfforaethol?**

Dim cyfraniad uniongyrchol.

**6. Faint fydd yn ei gostio a sut fydd yn effeithio ar wasanaethau eraill?**

Byddai'n rhaid cwrdd ag unrhyw gynnydd yn nhaliadau aelodau lleyg o gyllidebau'r Cyngor.

**7. Beth yw prif gasgliadau'r Asesiad o'r Effaith ar Les?**

Nid oes angen Asesiad o Effaith ar gyfer yr adroddiad hwn.

**8. Pa ymgynghoriadau a gynhaliwyd gydag Archwilio ac eraill?**

Mae ymateb i ymgynghoriad Panel Annibynnol Cymru ar Gydnabyddiaeth Ariannol yn un o swyddogaethau'r Pwyllgor Gwasanaethau Democrataidd ac fe ystyriodd y pwyllgor hwnnw adroddiad drafft y Panel ar 20 Hydref 2017. Mae disgwyl i'r Cyngor Llawn ystyried yr adroddiad terfynol ym mis Chwefror 2018 ac fe ellir cyflwyno barn ac argymhellion y Pwyllgor Safonau'n rhan o'r drafodaeth honno.

**9. Datganiad y Prif Swyddog Cyllid**

Dim angen.

**10. Pa risgiau sydd yna ac oes yna unrhyw beth y gallwn ei wneud i'w lleihau?**

Mae awdurdod gan Banel Annibynnol Cymru ar Gydnabyddiaeth Ariannol i osod lefel taliadau a'r fframwaith arweiniol ar gyfer aelodau lleyg a chyfetholedig. Nid oes unrhyw risgiau wedi'u canfod ynghlwm â'r materion sydd yn yr adroddiad hwn.

**11. Pŵer i wneud y Penderfyniad**

Adran 111 Deddf Llywodraeth Leol 1972

Mesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2011

## 9. Taliadau i Aelodau Cyfetholedig Prif Gynghorau, Awdurdodau Parciau Cenedlaethol ac Awdurdodau Tân ac Achub[6]

9.1 Mae'r Panel wedi penderfynu bod ffi dyddiol/am hanner diwrnod yn gydnabyddiaeth ariannol briodol am y rôl bwysig a gyflawni'r gan aelodau cyfetholedig o awdurdodau sydd â hawliau pleidleisio (mae hyn yn cynnwys yr aelod cyfetholedig o Gyngor Tref neu Gymuned). Mae lefel y taliadau yn gyfwerth â'r cyfraddau dyddiol cyfredol ar gyfer cadeiryddion ac aelodau o gyrff a noddir gan Lywodraeth Cymru ym Mand 2. Mae'r Panel yn nodi na fu cynnydd yn lefelau'r taliadau hyn ar draws cyrff o'r fath ers 2010.

9.2 Gall prif gynghorau, APCau ac ATAau benderfynu ar uchafswm y dyddiau mewn unrhyw un flwyddyn y gall aelodau cyfetholedig gael tâl amdanynt.

9.3 Nodir y penderfyniadau isod:

**Penderfyniad 38: Mae'n rhaid i Brif Gynghorau, APCau ac ATAau dalu'r ffioedd canlynol i aelodau cyfetholedig (Tabl 6) (sydd â hawliau pleidleisio).**

**Tabl 6:** Ffioedd ar gyfer aelodau cyfetholedig (sydd â hawliau pleidleisio)

| | |
|---|---|
| Cadeiryddion pwyllgorau safonau a phwyllgorau archwilio | £256 (4 awr a throsodd)<br>£128 (hyd at 4 awr) |
| Aelodau cyffredin o bwyllgorau safonau sydd hefyd yn cadeirio pwyllgorau safonau ar gyfer cynghorau tref a chymuned | £226 ffi ddyddiol (4 awr a throsodd)<br>£113 (hyd at 4 awr) |
| Aelodau cyffredin pwyllgorau safonau; pwyllgor craffu addysg; pwyllgor craffu troseddau ac anhrefn a phwyllgor archwilio | £198 (4 awr a throsodd)<br>£99 (hyd at 4 awr) |
| Cynghorau tref a chymuned sy'n eistedd ar bwyllgorau prif gynghorau | £198 (4 awr a throsodd)<br>£99 (hyd at 4 awr) |

**Penderfyniad 39: Mae amser rhesymol i baratoi cyn cyfarfodydd yn gymwys i'w gynnwys mewn hawliadau a wneir gan aelodau cyfetholedig – gall swyddog priodol benderfynu faint cyn y cyfarfod.**

**Penderfyniad 40: Gellir cynnwys amser teithio i'r cyfarfod ac oddi yno yn yr**

[6] Nid yw'r adran hon yn berthnasol i aelodau cyfetholedig o gynghorau tref a chymuned.

**hawliadau am daliadau a wneir gan aelodau cyfetholedig (hyd at uchafswm y gyfradd ddyddiol).**

**Penderfyniad 41: Gall y swyddog priodol yn yr awdurdod bennu ymlaen llaw a yw cyfarfod wedi'i drefnu ar gyfer diwrnod llawn a thelir ffi ar sail y penderfyniad hwn, hyd yn oed os yw'r cyfarfod yn gorffen cyn diwedd pedair awr.**

**Penderfyniad 42: Mae cyfarfodydd sy'n gymwys am daliad ffi yn cynnwys pwyllgorau a gweithgorau eraill (gan gynnwys grwpiau gorchwyl a gorffen), cyfarfodydd rhagarweiniol gyda swyddogion, hyfforddiant a phresenoldeb mewn cynadleddau neu unrhyw gyfarfod ffurfiol arall y gofynnir i aelodau cyfetholedig ei fynychu.**

**Mae penderfyniadau'r Panel ynghylch Teithio a Chynhaliaeth, Ad-dalu costau gofal ac Absenoldeb Teuluol bellach wedi'u nodi mewn adrannau ar wahân o'r Adroddiad Blynyddol hwn.**

**RHAGLEN GWAITH I'R DYFODOL Y PWYLLGOR SAFONAU**

***<u>SYLWER BOD Y RHAGLEN I'W DOSBARTHU 1 WYTHNOS CYN Y CYFARFOD</u>***

| DYDDIAD Y CYFARFOD | EITEMAU / MEYSYDD ADRODDIAD | AWDUR YR ADRODDIAD |
|---|---|---|
| | | |
| | | |
| **29 Mehefin 2018** | Eitem Sefydlog: Presenoldeb mewn Cyfarfodydd | Amh |
| | Eitem Sefydlog: Llyfr Achos Cod Ymddygiad Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru | Gary Williams (Swyddog Monitro) |
| | Eitem Sefydlog: Rhaglen Gwaith i'r Dyfodol y Pwyllgor Safonau | Gary Williams (Swyddog Monitro) |
| | Eitem Sefydlog Rhan 2: Trosolwg o Gwynion yn Sir Ddinbych | Gary Williams (Swyddog Monitro) |
| | Adolygu'r protocol hunan-reoleiddio a'i gymhwyso ar gyfer Cynghorau Dinas, Tref a Chymuned | Gary Williams (Swyddog Monitro) |
| | | |
| **21 September 2018** | Eitem Sefydlog: Presenoldeb mewn Cyfarfodydd | Amh |
| | Eitem Sefydlog: Llyfr Achos Cod Ymddygiad Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru | Gary Williams (Swyddog Monitro) |
| | Eitem Sefydlog: Rhaglen Gwaith i'r Dyfodol y Pwyllgor Safonau | Gary Williams (Swyddog Monitro) |
| | Eitem Sefydlog Rhan 2: Trosolwg o Gwynion yn Sir Ddinbych | Gary Williams (Swyddog Monitro) |
| | | |

Mae tudalen hwn yn fwriadol wag

Yn rhinwedd Paragraff(au) 12, 13 Rhan 4, Atodlen 12A
Deddf Llywodraeth Leol 1972.

Document is Restricted

Mae tudalen hwn yn fwriadol wag